



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Prosbectws Polisi Cynllunio

14 Ionawr 2015



ISBN digidol 978 1 4734 3038 9

© Hawlfraint y Goron 2015

WG24200

Cynnwys:

Trosolwg: Polisi Cynllunio Cymru	4
Cynllunio ar gyfer Cynaliadwyedd	4
Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)	5
Y Bil Cynllunio (Cymru)	6
Adolygu Polisi Cynllunio Cymru	6

Trosolwg: Polisi Cynllunio Cymru

Ers 2002, mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) wedi nodi polisiâu Llywodraeth Cymru ar gynllunio defnydd tir. Mae PCC, ynghyd â Nodiadau Cyngor Technegol, cylchlythyrau a llythyrau egluro polisi yn ffurfio polisi cynllunio cenedlaethol.

Mae cynaliadwyedd wrth wraidd PCC. Mae polisi cynllunio yn ymwneud â'r dewisiadau ar gyfer y dyfodol ynghylch sut y dylid diwallu angen ein cymunedau i ddatblygu a ffynnu gyda rheoli adnoddau naturiol.

Mae PCC wedi'i strwythuro fel bod pob pennod yn ymdrin ag un neu fwy o themâu neu bynciau penodol. Mae penodau hyn yn: nodi amcanion strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer y meysydd hyn; y cyd-destun polisi a materion allweddol; meysydd y dylai CDLlau ymdrin â hwy yn lleol; a materion y dylid eu hystyried pan benderfynir ar geisiadau cynllunio.

Mae'r penodau wedi'u grwpio fel a ganlyn:

- Cynllunio ar gyfer Cynaliadwyedd (gan gynnwys newid yn yr hinsawdd, strategaethau anheddu, rheoli ffurf drefol, tir llwyd a thir amaethyddol, dylunio, adeiladau cynaliadwy a'r iaith Gymraeg)
- Treftadaeth Naturiol a'r Arfordir (gan gynnwys tirwedd a bioamrywiaeth)
- Yr Amgylchedd Hanesyddol
- Datblygu Economaidd
- Trafnidiaeth
- Tai
- Manwerthu a Chanol Trefi
- Twristiaeth, Chwaraeon a Hamdden
- Seilwaith a Gwasanaethau (gan gynnwys dŵr, gwastraff, ynni a thelathrebu)
- Risgiau Amgylcheddol a Llygredd (gan gynnwys perygl llifogydd, tir halogedig ac ansefydlog, ansawdd aer a dŵr, a llygredd sŵn a golau)

Cynllunio ar gyfer Cynaliadwyedd

Mae Pennod 4 (Cynllunio ar gyfer Cynaliadwyedd) yn nodi'r cysylltiadau rhwng cynllunio a datblygu cynaliadwy. Mae'n disgrifio'r cefndir a'r fframwaith deddfwriaethol presennol yn ogystal â gosod rhagdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy o fewn y system gynllunio.

Mae themâu allweddol cynaliadwyedd, yn ôl paragraff 4.1.6 o PCC, fel a ganlyn:

- Byw o fewn terfynau amgylcheddol
- Sicrhau cymdeithas gref, iach a theg
- Sicrhau economi gynaliadwy
- Hyrwyddo llywodraethu da
- Defnyddio gwyddoniaeth gadarn yn gyfrifol

Mae'n rhaid i bob awdurdod cynllunio lleol (ACLI) yng Nghymru lunio Cynllun Datblygu Lleol (CDLI). Rhaid ystyried y cynllun datblygu at ddibenion unrhyw benderfyniad a wneir o dan y Deddfau Cynllunio. Mae'n rhaid i'r penderfyniad gael ei wneud yn unol â'r cynllun oni noda ystyriaethau perthnasol fel arall.

Wrth lunio CDllau, mae'n ofynnol i ACLlau gynnal Arfarniad o Gynaliadwyedd. Mae hyn yn profi polisiâu'r cynlluniau yn erbyn amcanion cynaliadwyedd. Nod yr arfarniad yw asesu effeithiau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol y cynllun a gwneir hyn ar sawl cam yn ystod y broses o'i lunio. Mae cynnal y broses hon yn sicrhau bod penderfyniadau sy'n unol â'r cynllun yn cael eu gwneud yng nghyd-destun datblygu cynaliadwy.

Dylai ACLlau, Gweinidogion Cymru ac Arolygwyr Cynllunio ystyried PCC pan lunnir CDllau a phan benderfynir ar geisiadau cynllunio.

Mae'r system gynllunio yn darparu ar gyfer rhagdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy fel a ganlyn: wrth lunio cynllun datblygu a gwneud penderfyniadau yn unol â'r cynllun hwnnw, mae ACLlau yn cyflawni eu swyddogaethau cynllunio gyda'r nod o gyfrannu at sicrhau datblygu cynaliadwy.

Os nad oes cynllun ar waith neu nad yw'n gyfredol, mae PCC yn cynnwys egwyddorion ac amcanion datblygu cynaliadwy y dylai'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau eu hystyried wrth gyfiawnhau ei benderfyniadau ar geisiadau cynllunio gan ddefnyddio tystiolaeth briodol.

Dengys yr egwyddorion a'r amcanion datblygu cynaliadwy hyn sut mae datblygu cynaliadwy wrth wraidd PCC a pholisi cynllunio cenedlaethol.

Felly, mae Datblygu Cynaliadwy wedi bod wrth wraidd y system gynllunio, ei pholisiâu a'i harferion, ers degawd a mwy ers cyflwyno Polisi Cynllunio Cymru.

Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

Cyflwynwyd Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 7 Gorffennaf 2014. Diben bras y Bil yw sicrhau bod trefniadau llywodraethu cyrff cyhoeddus i wella llesiant Cymru yn ystyried anghenion cenedlaethau'r dyfodol.

Tri o ddibenion allweddol penodol y Bil yw:

- pennu fframwaith, ac o fewn y fframwaith hwnnw bydd awdurdodau cyhoeddus penodol Cymru yn ceisio sicrhau y diwellir anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain (yr egwyddor datblygu cynaliadwy);
- rhoi nodau llesiant ar waith y bydd yr awdurdodau hynny yn ceisio eu cyflawni er mwyn gwella llesiant nawr ac yn y dyfodol;
- nodi sut y disgwylir i'r awdurdodau hynny ddangos eu bod yn gweithio tuag at y nodau llesiant.

Mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn ceisio sicrhau bod pob penderfyniad gan gyrff cyhoeddus yn cael ei wneud yng nghyd-destun: "*ceisio sicrhau y diwellir anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain*".

Mae gwneud i gyrff cyhoeddus ystyried datblygu cynaliadwy yn ofynnol yn eu prosesau cynllunio busnes a gwneud penderfyniadau, i bob diben, yn gorfodi iddynt gynnal proses yn gorfforaethol sy'n rhywbeth y mae awdurdodau cynllunio lleol a phenderfynwyr cynllunio eraill wedi bod yn ei wneud ers dros 10 mlynedd yng nghyd-destun Polisi Cynllunio Cymru.

Y Bil Cynllunio (Cymru)

Cyflwynwyd y Bil Cynllunio (Cymru) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 6 Hydref 2014. Mae'r Bil yn ceisio sicrhau fod gan Gymru system gynllunio fydd yn helpu i ddarparu cartrefi, swyddi a seilwaith er lles cymunedau ar draws Cymru.

Bydd y Bil hwn, os caiff ei ddeddfu, yn cyflwyno Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) a Chynlluniau Datblygu Strategol (CDSau).

Bydd i'r FfDC statws cynllun datblygu a bydd yn canolbwyntio ar faterion defnydd tir sydd o arwyddocâd cenedlaethol, gan gynnwys ynni, trafnidiaeth, datblygu economaidd, tai ac adnoddau naturiol. Drwy'r FfDC, bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cyfeiriad cadarnhaol ar gyfer datblygu a buddsoddi ac yn rhoi arweiniad i rannau eraill o'r system gynllunio.

Caiff CDSau eu llunio ar gyfer y rhannau hynny o Gymru sydd â materion cynllunio sy'n bwysig y tu hwnt i lefel leol ac sy'n effeithio ar fwy nag un ardal awdurdod lleol. Bydd y FfDC yn rhoi'r cyfeiriad strategol ar gyfer CDSau ac yn sicrhau bod blaenoriaethau Llywodraeth Cymru yn cael eu trosglwyddo i'r lefel ranbarthol. Bydd y FfDC a CDSau yn destun Arfarniad o Gynaliadwyedd.

Gyda'i gilydd bydd PCC, sy'n nodi polisiâu Llywodraeth Cymru ar ddefnydd tir, a'r FfDC, sy'n nodi'r blaenoriaethau gofodol ar gyfer twf a seilwaith, yn sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn darparu arweinyddiaeth ar gyfer y system gynllunio ar bob lefel ledled Cymru.

Adolygu Polisi Cynllunio Cymru

Mae'n rhaid i Bolisi Cynllunio Cymru adlewyrchu'r fframwaith deddfwriaethol newydd tra'n parhau i roi cyd-destun priodol lle y caiff cynlluniau datblygu eu llunio ac y gwneir penderfyniadau ar gynigion datblygu.

Er mwyn gweithredu hyn rydym yn cynnig rhaglen waith gynyddol sy'n cynnwys camau gweithredu byrdymor, tymor canolig a thymor hwy. Mae angen i bolisi cynllunio gyfateb yn barhaus i'r newid pwysig hwn yn y fframwaith deddfwriaethol ac mae'n debygol y bydd galw am eglurhad a chanllawiau, yn arbennig gan awdurdodau cynllunio lleol ar sut y dylid ystyried nodau Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wrth lunio cynlluniau a gwneud penderfyniadau cynllunio. Bydd cytuno ar y rhaglen waith hon a'i chyfleu nawr yn sicrhau bod ein camau gweithredu wedi'u paratoi'n dda ac yn glir a bod rhanddeiliaid yn cael eu hysbysu am yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud yn y dyfodol.

Gweithredu Byrdymor: Erbyn Gwanwyn 2015:

Adolygiad Llai Manwl o PCC i ystyried darpariaethau Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

Byddwn yn diwygio penodau agoriadol PCC (yn arbennig Pennod 4 sy'n trafod datblygu cynaliadwy ar hyn o bryd) er mwyn ymgorffori gwybodaeth am Fil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a sut y dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried y nodau wrth lunio cynlluniau a gwneud penderfyniadau cynllunio.

Caiff Adrannau 4.1 – 4.4 o PCC eu hailysgrifennu er mwyn cynnwys gwybodaeth am y Bil yng nghyd-destun yr adrannau sy'n ymdrin â datblygu cynaliadwy (4.1) a chynllunio ar gyfer cynaliadwyedd (4.2) yn fwy cyffredinol. Caiff yr adrannau hyn eu hehangu drwy gynnwys cyngor a chanllawiau ar CDLLau a Rheoli Datblygu mewn ffordd debyg i'r penodau eraill sy'n seiliedig ar bynciau. Bydd egwyddorion ac amcanion datblygu cynaliadwy (4.3 a 4.4) hefyd yn cael eu grwpio a'u haildrefnu er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â nodau Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Caiff y newidiadau hyn eu paratoi a'u cyhoeddi yn fuan ar ôl i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol ac i'r darpariaethau perthnasol o'r Bil ddod i rym, yn gyntaf ar ffurf llythyr egluro polisi ac wedyn fel rhan o waith sydd wedi'i drefnu i ddiweddarau PCC.

Byddai'r gwaith cychwynnol hwn yn darparu gwybodaeth a chanllawiau hanfodol i ddatblygwyr ac awdurdodau cynllunio lleol, tra'n diweddarau polisi cynllunio cenedlaethol yng Nghymru yng nghyd-destun y cefndir deddfwriaethol newydd.

Gweithredu Tymor Canolig: Erbyn Diwedd 2015:

Adolygiad o PCC sy'n nodi'r datganiadau polisi ac yn eu cysylltu â'r nodau ym Mil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Bydd gwaith manwl yn dechrau i ystyried PCC yn fanylach er mwyn dangos y cysylltiadau â'r nodau o fewn y Bil.

Caiff PCC ei ystyried yn drylwyr er mwyn tynnu sylw at y nodau o fewn y Bil a chroesgyfeirio atynt, gan greu cyswllt annatod rhwng y ddau a galluogi'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i gyfiawnhau eu penderfyniadau yng nghyd-destun nodau y Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Gweithredu Tymor Hwyl: Yn ystod 2016:

Cysoni strwythur PCC a'r FfDC â nodau Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Yn y tymor hwyl byddwn yn diweddarau PCC er mwyn cysoni'r penodau presennol â nodau a nodir ym Mil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Bydd y broses strwythuro hon yn pennu pwnc polisi i un neu fwy o nodau.

Yn yr un modd, bydd y FfDC wedi'i strwythuro o amgylch nodau Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), gan sicrhau bod egwyddorion datblygu cynaliadwy yn parhau i fod wrth wraidd y system gynllunio.

Trefnir i'r gwaith hwn gydgysylltu â gwaith arall sy'n mynd rhagddo mewn perthynas â PCC gan gynnwys ymgorffori Polisi Cynllunio Mwynau Cymru yn ogystal â'r gwaith sy'n mynd rhagddo i ddiweddarau a llunio polisi diwygiedig (gan gynnwys manwerthu a threftadaeth adeiledig ac ati).

Ar ôl i'r system gael ei chyflwyno, bydd angen i Weinidogion Cymru hefyd ddangos eu bod wedi ystyried nodau Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) wrth wneud penderfyniadau ar Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cynllunio (DAC).

Er y caiff nodau Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) eu nodi mewn deddfwriaeth, gall Gweinidogion Cymru ychwanegu atynt, eu dileu neu eu newid drwy is-ddeddfwriaeth. Felly, wrth strwythuro a chyhoeddi PCC, bydd angen sicrhau bod ganddo'r hyblygrwydd i allu addasu i unrhyw newidiadau.